| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD** | **19 MEDI 2011** |
| **TEITL** | **FFIOEDD TRWYDDEDU 2011-12** |
| **PWRPAS** | **ER CYMERADWYAETH** |
| **AWDUR** | **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol a rheoliadau y Cyngor, mae gofyn ar y Gwasanaeth i adolygu ei ffioedd yn flynyddol. Mae gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu gymeradwyo'r ffioedd hynny yn ymwneud a chyfrifoldebau trwyddedu'r Cyngor.

1.2 Yn ogystal, dylid nodi bod adolygiad Ffioedd Gwarchod y Cyhoedd, yn cynnwys y ffioedd trwyddedu yn cyfrannu at raglen arbedion £16 miliwn y Cyngor. Cymeradwywyd y bwriad i adolygu'r ffioedd ac i gyfrannu at y swm arbedion £16 miliwn ar 10 Rhagfyr, 2010. Fel Pennaeth Gwasanaeth, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd Portffolio maent wedi eu codi, ond mae angen eich cymeradwyaeth chwi o'r weithred hyn.

## 2. DEDDF TRWYDDEDU 2003

2.1 Cynhwysir y ffioedd yma er gwybodaeth. Mae'r ffioedd yma yn rai statudol, ac nid oes disgresiwn gan gynghorau unigol i'w diwygio. Gall hyn newid yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r Llywodraeth yn adolygu'r ddeddf ac yn awgrymu y bydd hawl gan y cynghorau unigol i ddiwygio'r ffioedd. Adroddir ymhellach ar hyn pan derbynnir mwy o wybodaeth.

## 3. DEDDF GAMBLO 2005

3.1 Yn wahanol i'r Ddeddf Drwyddedu, mae disgresiwn gan gynghorau unigol i osod ei ffioedd eu hunain, cyn belled nad ydynt yn mynd yn uwch nag uchafswm a osodwyd gan y Llywodraeth. Pan daeth y Ddeddf i rym, yn 2007, penderfynodd y Cyngor i beidio a codi'r uchafswm a ganiateir ym mhob achos, ond dilyn yr un llwybr a gweddill gynghorau Gogledd Cymru a pennu ffi, ar y ffioedd blynyddol, o 80% o'r uchafswm. Argymhellir yn yr adroddiad yma i godi'r ffi i'r uchafswm a ganiateir ar y rhai yma nad oedd ar 100% o'r cychwyn. Mae awdurdodau eraill yn debygol o ddilyn llwybr cyffelyb.

## 4. TRWYDDEDAU HACNI A HURIO PREIFAT

4.1 Yn hanesyddol, mae'r ffioedd a godwyd gan y Cyngor yma am y gwasaneth yma wedi bod ymhlith y rhataf yng Nghymru. Mae amrywiaeth sylweddol yn y ffioedd a godir gan y gwahanol gynghorau, hyd yn oed ar draws Gogledd Cymru.

4.2 Noder bod y ffioedd rydym nawr yn eu gosod ar y lefel cyfartaledd ffioedd a oedd yn bodoli ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2010-11.

## 5. SEFYDLIADAU RHYW

5.1 Ar hyn o bryd, mae un sefydliad yn dal trwydded am Sefydliad Rhyw yng Ngwynedd, a credir bod y ffioedd presennol yn ddigon uchel. Nid oes modd cyfiawnhau eu codi.

## 6. MARCHNADOEDD A FFEIRIAU

6.1 Argymhellir nad yw y Cyngor yn codi'r ffioedd yn y maes yma. Mae'n faes ble mae ffioedd yn y siroedd cyfagos wedi eu gostwng yn sylweddol ac mae'r siroedd hynny yn parhau i golli cwsmeriaid, ac yna incwm. Yn gyffredinol, mae'n braf dweud bod marchnadoedd Gwynedd yn llwyddiannus o ran niferoedd ond mae hyn yn rhannol oherwydd i ni ostwng y ffioedd a godwyd rhai blynyddoedd yn ôl. Mae tystiolaeth yn dangos bod gostwng y ffi wedi llwyddo i warchod yr incwm i'r Cyngor ac hefyd helpu i gadw'r marchnadoedd yn hyfyw, sydd yn y pen draw yn gwarchod incwm i'r dyfodol. Mae gwaith ar y gweill i gryfhau perfformiad y marchnadoedd sy'n perfformio wanaf a thrwy hyn gyfrannu at wella hyfywdra canol trefi.

6.2 O ran ffeiriau, mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol, gyda'r incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn gostwng. Ein teimlad ni yw y buasai codi'r ffioedd yn arwain i wanhau eu perfformiad ymhellach ac felly at ostyngiad pellach yn yr incwm. Argymhellir i newid y ffioedd yma.

## 7. ARGYMHELLIAD

7.1 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo y strwythur ffioedd ar gyfer y gwasanaeth yma am 2011-12 yn unol ac Atodiad 1.